



Gwybodaeth am Gronfa ARWEINYDD y RhDG

Faint o arian sydd ar gael?

Rydym yn rhyddhau £400,000 ar gyfer prosiectau refeniw. Bydd yr arian hwn ar gael ar gyfer syniadau prosiectau newydd. **Ni all y gronfa hon gefnogi prosiectau presennol nac ariannu parhad unrhyw brosiectau/rhaglenni.**

Rydym yn gallu ariannu hyd at 80% o gyfanswm cost eich prosiect. Mae terfyn o £80,000 ar yr 80% hwn £80,000 (prosiect cyfan gwerth £100,000).

Mae Grŵp Gweithredu Lleol Cwm Taf yn cadw'r hawl i beidio â dyrannu'r holl arian a ryddhawyd. Bydd unrhyw arian na ddyrannwyd i brosiectau y tro hwn yn cael ei ddychwelyd i gronfa ganolog y Grŵp Gweithredu Lleol i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Mewn achosion eithriadol mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn cadw'r hawl i ddyfarnu symiau uwch ar gyfer prosiectau na'r terfyn a nodwyd ac os cyfyd sefyllfa pan fo nifer o brosiectau rhagorol arloesol yn cael eu cyflwyno, disgrisiwn y Grŵp Gweithredu Lleol yw cynyddu'r arian sydd ar gael.

Pa mor hir ddylai prosiect bara?

Byddem yn disgwyl i ymyriadau prosiect bara chwe mis hyd at uchafswm o dri deg chwe mis. Rhaid i brosiectau ddechrau ymhen 3 mis o ddyddiad y llythyr cymeradwyo.

Ar ba themâu fydd y cylch hwn o arian yn canolbwyntio?

Byddem yn croesawu prosiectau sy'n cydweddu i un neu fwy o'r themâu canlynol:

- Archwilio Technoleg Ddigidol
- Ynni Adnewyddadwy ar lefel gymuned
- Ychwanegu Gwerth at Hunaniaeth Leol ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol
- Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau anstatudol
- Hwyluso datblygiad cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr

Beth sy'n gymwys am gefnogaeth?

- Costau staff
- Mentora
- Hyfforddiant
- Ymchwil
- Astudiaethau

- Prosiectau Peilot
- Arbenigedd
- Marchnata
- Cyfieithu

Am beth rydym yn edrych?

Mae hon yn broses gystadleuol a bydd angen i brosiectau gael eu harwain gan gymunedau, ymateb i angen cymunedol a chyfrannu'n strategol at gadernid ardaloedd gwledig penodedig Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Rhaid i brosiectau allu cynnal eu hunain yn yr hirdymor, ar ôl i'r ymyriad arian ddod i ben.

Bydd angen i unrhyw arian ddarparu manteision ar draws o leiaf un ward wledig.

Mae themâu'r prosiect Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) yn fwrriadol eang er mwyn annog cyflwyno ystod o syniadau arloesol.

Os ydych yn dymuno cynnwys unrhyw ddogfennaeth gefnogol (megis Cynllun Busnes) fel rhan o'ch Mynegiad o Ddiddordeb mae croeso i chi wneud ond nid yw hyn yn orfodol. Byddwn yn gofyn am Gynllun Busnes os cewch wahoddiad i gyflwyno cais.

Ar sail y broses ymgynghori a gynhaliwyd hyd yn hyn ar gyfer y rhaglen, isod mae gwybodaeth a allai fod o ddiddordeb i chi i arwain datblygiad unrhyw syniadau prosiect ar gyfer y gwahanol themâu.

Mae manylion am sefydliadau eraill all ddarparu cefnogaeth bellach wedi'u rhestru ar y dudalen Manylion Cyswllt yn y pecyn hwn.

Archwilio Technoleg Ddigidol

Dylid ystyried cysylltedd yr ardal rydych yn dymuno treialu'ch prosiect ynddi.

Pa fathau o arloesedd y gellid ei gynnal i annog cymunedau i ryngweithio â thechnoleg a chael eu 'cynnwys yn ddigidol'. Rhaid i brosiectau beidio â dyblygu gwaith prosiectau neu weithgareddau parod.

Disgwylir y bydd elfen ddigidol i bob prosiect.

Hwyluso Datblygiad Cyn-fasnachol, Partneriaethau Busnes a Chadwyni Cyflenwi Byr

Bydd ffocws y thema hon yn debygol o gael ei anelu at waith cydweithredol a phartneriaeth. Efallai hoffwch ystyried y buddi'r gymuned o unrhyw brosiect peilot a gyflwynir yn y thema hon, h.y. cyflogaeth, buddsoddiad gwledig cyffredinol, denu cwsmeriaid a mentrau eraill i'r wardiau gwledig.

Ni ddylai rhwydweithiau a phrosiectau cefnogol ddyblygu gweithgarwch presennol.

Archwilio Ffyrdd Newydd o Ddarparu Gwasanaethau Anstatudol

Dylai syniadau prosiect o dan y thema hon ddangos ffordd newydd o feddwl am gyflwyno gwasanaethau i'w gwneud yn fwy cynaliadwy ar ôl yr arian.

Sut bydd gwasanaethau nad yw'r Cyngor bellach yn eu darparu ond y mae angen mawr amdanynt yn eich cymuned yn gweithio ar draws ffiniau wardiau a faint o gefnogaeth sydd o'r gymuned maent yn effeithio arnynt?

Efallai hoffech feddwl am beth fyddai'r manteision ehangach i'r gymuned (Datblygiad Busnes er enghraifft) ac a fyddai gwasanaethau cyfrannol yn gweithio (e.e. defnyddio adeiladau parod sydd eisoes yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ychwanegol)

Ychwanegu Gwerth at Hunaniaeth Leol ac Adnoddau Naturiol a Diwylliannol

Gallai prosiectau ddarparu manteision iechyd i'r gymuned, efallai trwy ddefnydd arloesol o'r amgylchedd gwledig.

A ellid ymgorffori agweddau ar Hamdden a Thwristiaeth mewn prosiect i wella buddion economaidd i'r gymuned?

Ffyrdd newydd o gael pobl o bob oedran i ymgysylltu a rhyngweithio â'u treftadaeth, diwylliant ac amgylchedd a'u hannog i gymryd perchnogaeth ar eu hardal ac ymfalchio ynddi.

Ynni Adnewyddadwy ar Lefel Gymuned

Pa arloesedd y gellid ei weithredu sy'n cyflwyno buddsoddiad i'r gymuned?

Ystyriwch y cyfyngiadau, y cynlluniau a'r caniatâd gofynnol yn ogystal â'r cyfleoedd o ran cynnal prosiect o dan y thema hon.

Sut bydd unrhyw brosiect yn gweithio ar draws ffiniau wardiau ac yn cysylltu â chynlluniau presennol.

Nodwch

Nid yw'r manylion uchod yn rhestr gyflawn o'r holl ystyriaethau wrth ddatblygu'ch prosiect. Os ydych yn dymuno manylion prosiectau cysylltwch â Chydlynnydd Cwm Taf Gwledig, Joanne Nicholas – Joanne.Nicholas@Merthyr.gov.uk 01685 727089.

Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i roi sylwadau ar unrhyw Fynegiad o Ddiddordeb neu Gais a gyflwynir.

Beth nad yw'n gymwys am arian?

Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr...

- Gwasanaethau sy'n ofyniad statudol yr Awdurdodau Lleol;
- Prosiectau/gwasanaethau presennol;
- Costau cyfalaf (Eitem cyfalaf at y dibenion hyn yw offer a brynir gwerth mwy na £10,000 **ac** a gedwir am fwy na 12 mis);
- Cymorth neu gefnogaeth arall a fyddai'n cael ei ystyried yn Gymorth Gwladol neu'n effeithio ar gystadleuaeth y farchnad o ran busnes, menter, neu 'weithredwr economaidd';
- Grantiau cyfalaf neu refeniw neu ffurfiau eraill o gymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol;
- Prynu adeiladau;

- Prynu ceir, faniau, beiciau modur, beiciau ac unrhyw ffurf arall o drafnidiaeth bersonol (am ba reswm bynnag);
- Prynu cerbydau ar gyfer cludo allanol (megis lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl);
- Unrhyw waith safle ffisegol neu wariant arall a wneir cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr un sy'n dyrannu'r grant;
- Gwaith dros dro nad yw'n ymwneud **yn uniongyrchol** â chyflawniad y prosiect;
- Costau cynnal a chadw adeiladau, cyfleusterau neu offer presennol;
- Costau trefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill y gall y gan y buddiolwr eu hadennill, costau gweinyddol a staff neu iawndal a delir i drydydd parti am ddifeddiannu, ac ati;
- Taliadau am weithgarwch gwleidyddol ei natur;
- Dibrisiant a nam asedau a brynir gyda chymorth grant Ewropeaidd;
- Rhwymedigaethau amodol;
- Eitemau digwyddiadol;
- Difidend i randdeiliaid;
- Costau llog (oni bai dan gynllun Cymorth Gwladol cymeradwy);
- Costau gwasanaeth a gyfyd ar brydlesi cyllid, pryniant hurio a threfniadau credyd;
- Costau o ganlyniad i ohirio taliadau i gredydwyr;
- Costau sydd ynghlwm wrth ddirwyn cwmni masnachol i ben;
- Iawndal am golli swydd;
- Dyledion gwael a gyfyd o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu rywun sy'n gysylltiedig â'r un o'r rhain;
- Taliadau am roddion;
- Adloniant personol;
- Dirwyon a chosbau statudol;
- Dirwyon ac iawndaliadau troseddol;
- Costau cyfreithiol o ran ymglyfreitha;
- TAW y gellir ei adennill

Arian Cyfatebol

Gellir darparu arian cyfatebol ar ffurf arian parod neu mewn nwyddau (e.e. amser staff, amser gwirfoddolwyr). Os ydych yn dewis defnyddio arian cyfatebol mewn nwyddau bydd angen tystiolaeth o hyn a gall arwain at leihau faint o arian prosiect a gewch.

Er enghraifft, gall prosiect gael cyfanswm o £16,432 mewn costau.

Y swm uchaf o grant RhDG y gellir ei dalu i'r prosiect hwnnw gan y mesur ARWEINYDD yw £13,145.60 sef 80% o gyfanswm cost y prosiect.

Os cefnogwyd y prosiect gan arian cyfatebol mewn nwyddau ar ffurf llafur gwirfoddol di-dâl gwerth hyd at £6,000 y gost wirioneddol a fyddai'n cael eu creu fyddai £10,432.

Yn y sefyllfa hon y grant RhDG taladwy uchaf fyddai £10,432 (sy'n cynrychioli cyfradd grant o 63.5% ar gyfanswm cost y prosiect a'r 36.5% arall ar ffurf arian cyfatebol mewn nwyddau o'r llafur gwirfoddol).

Gall ffrydiau arian eraill (e.e. y Loteri Fawr) gyfrannu at yr arian cyfatebol ond nid arian o brosiectau neu raglenni Ewropeaidd eraill.

Beth sy'n digwydd os ydy Mynegiad o Ddiddordeb/Cais yn aflwyddiannus?

Os ydych yn aflwyddiannus cewch ohebiaeth ysgrifenedig yn esbonio pam y methodd eich Mynegiad o Ddiddordeb neu pam nad oedd y cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Nid yw Mynegiad o Ddiddordeb neu gais aflwyddiannus yn eich atal rhag ceisio eto ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Os pennir bod prosiect yn anghymwys neu aflwyddiannus am arian ARWEINYDD RhDG, bydd Grŵp Gweithredu Lleol Cwm Taf a'r adrannau perthnasol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cynghori ar botensial am arian neu'n cynorthwyo â chwiliadau arian er mwyn cefnogi'r sefydliad i gyflawni'u gobeithion.

Beth sy'n digwydd os ydy Mynegiad o Ddiddordeb/Cais yn llwyddiannus?

Os ydy'ch Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus, cewch ohebiaeth ysgrifenedig a ffurflen gais (gan gynnwys rhif adnabod unigryw), arweiniad ar lenwi'r ffurflen gais a dyddiad cau i'w chyflwyno. Fel rhan o'r broses caiff eich sefydliad ei wahodd i gyfarfod y Grŵp Gweithredu Lleol.

Os ydych yn llwyddiannus ar y cam Mynegi Diddordeb bydd gofyn i chi gyflwyno Cynllun Busnes fel rhan o'ch cais.

Os ydych yn llwyddiannus ar y cam Cais, cewch ohebiaeth ysgrifenedig a bydd cytundeb ariannu'n cael ei lunio a'i gyflwyno i'ch sefydliad i'w lofnodi. Bydd hyn yn cynnwys agweddau megis:

Monitro Allbynnau a Chanlyniadau

Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus adrodd ar nifer o ddangosyddion perthnasol fel rhan o'ch cyflwyniad prosiect. Bydd Llywodraeth Cymru'n gosod y dangosyddion hyn a bydd Cydlynnydd Cwm Taf Gwledig yn eu monitro. Rydym yn cadw'r hawl i ymweld â chi, cynnal archwiliadau gyda Llywodraeth Cymru a gofyn am wybodaeth o'r fath bob chwarter neu pan fo angen. Bydd angen cynnal archwiliadau a phrosesau monitro ar ôl i arian y prosiect ddod i ben.

Gallai methu â chyrraedd targedau arwain at adfachu rhywfaint o'r arian a ddyrannwyd neu'r arian cyfan. Bydd hyn oll wedi'u hamlinellu mewn Cytundeb Ariannu y bydd gofyn i chi'i lofnodi cyn gallu dechrau eich prosiect.

Cyhoeddusrwydd

Rhaid i'r holl ddeunyddiau a grëir fel rhan o brosiect gydnabod Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a dangos y logos ARWEINYDD. Rhaid cyflwyno'r holl ddeunyddiau i Gydlynnydd Cwm Taf Gwledig i'w cymeradwyo a bod yn ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg). Bydd cyngor ar hyn ar gael gan Gydlynnydd Cwm Taf Gwledig.

Mae Llywodraeth Cymru a Grŵp Gweithredu Lleol Cwm Taf yn cadw'r hawl i gyhoeddi gwybodaeth ac astudiaethau achos a fydd yn cynnwys gwybodaeth am brosiectau'r RhDG yn ôl yr angen.

Bydd prosiectau llwyddiannus yn rhan o gylchlythyron, datganiadau i'r wasg, gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw wybodaeth gyhoedduswydd arall a ddatblygir gan Gydlynnydd Cwm Taf Gwledig a'r Grŵp Gweithredu Lleol.

Cyllid

Bydd ceisiadau'n cael eu cyflwyno bob chwarter i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT yw'r Corff Gweinyddu Arweiniol) yn unol â therfynau amser Llywodraeth Cymru. Bydd angen i brosiectau gadw at y terfynau amser hyn a chyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth ofynnol. Bydd tystiolaeth ofynnol yn cynnwys pethau megis anfonebau/derbynebau a phrawf o daliadau.

Bydd sefydliadau'n cael taliadau chwarterol gan CBSMT yn unol â gwariant eu prosiect ar gyfradd 80/20.

Bydd cyfarfodydd rheolaidd gyda Chydlynnydd Cwm Taf Gwledig a Swyddog Cyllid CBSMT yn ofynnol fel rhan o'r arian, ynghyd â mynd i gyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol i adrodd ar gynnydd.